**PWYLLGOR SAFONAU**
**2 HYDREF 2017**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Safonau Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yng Nghyngor Tref Cei Connah ddydd Llun, 2 Hydref 2017. Roedd hwn hefyd yn gyfarfod blynyddol ar y cyd lle gwahoddwyd cynrychiolwyr Cynghorau Tref a Chymuned i gymryd rhan.

**YN BRESENNOL: Edward Hughes (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr:
Patrick Heesom, Paul Johnson ac Arnold Woolley
Aelodau cyfetholedig:
Robert Dewey, Phillipa Earlam a Ken Molyneux

**YMDDIHEURIAD:** Jonathan Duggan-Keen

**CYNRYCHIOLWYR CYNGHORAU TREF A CHYMUNED:** Y Cynghorwyr Brian Doleman, Christopher Owens ac Andrew Griffiths o Gyngor Cymuned Bagillt; Y Cynghorwyr Klaus Armstrong-Braun a Keith Rogers o Gyngor Cymuned Brychdyn a Bretton; Mr. R. Phillip Parry o Gyngor Tref Caerwys a Chynghorau Cymuned Halcyn a Chwitffordd; Y Cynghorydd David Knights o Gyngor Tref Caerwys; y Cynghorwyr Gwen Hardman ac Owen Thomas, Mr. Alun Evans a Ms. Jean Ramsay o Gyngor Cymuned Cilcain; Mr. Steven Goodrum o Gyngor Tref Cei Connah; Y Cynghorwyr Clive Carver a Dan Preece o Gyngor Cymuned Penarlâg; Y Cynghorwyr Michael Brooke, Lynda Carter, Joe Johnson a Ted Palmer o Gyngor Tref Treffynnon; Mrs. Samantha Roberts o Gyngor Tref Yr Wyddgrug; Y Cynghorwyr David Seddon a Debbie Seddon o Gyngor Cymuned Mostyn; Y Cynghorwyr Huw Morgan a Valmai Hughes-Parry a Ms. Helen Wade o Gyngor Cymuned Nannerch; Y Cynghorydd John Golledge o Gyngor Cymuned Northop Hall; Mr. Stephen Harms o Gynghorau Cymuned Northop Hall a Llanasa; Y Cynghorydd Alex Lewis o Gyngor Cymuned Sealand; a’r Cynghorydd Bob Hughes o Gyngor Cymuned Chwitffordd

**CYFRANWYR:** Mr. Nick Bennett, Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Mrs. Annie Ginwalla, Swyddog Ymchwilio a Gwelliant

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Swyddog Monitro, Dirprwy Swyddog Monitro a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

## 27. CYFLWYNIAD GAN OMBWDSMAN GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Roedd Mr. Nick Bennett, Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn bresennol gyda Mrs. Annie Ginwalla i roi cyflwyniad ar waith tîm Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wrth iddynt ystyried cwynion am wasanaethau cyhoeddus a darparwyr gofal annibynnol yng Nghymru.

Prif feysydd y cyflwyniad oedd:

- Ystadegau ar gyfer y deng mlynedd diwethaf – cynnydd o 126% yn y cwynion a dderbyniwyd gan Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus

Cymru, gan arwain at 4,502 o argymhellion ar gyfer gwelliannau i wasanaethau cyhoeddus ar draws Cymru.
- Mae'r ymholiadau a chwynion a dderbyniwyd yn dangos tuedd ar i fyny dros y pum mlynedd diwethaf gyda gostyngiad a groesawir yn y nifer o gwynion Cod Ymddygiad.
- Cyd-destun i amlinellu'r materion allweddol gan gynnwys y posibilrwydd o fwy o bwerau datganoledig ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned yn y dyfodol.
- Roedd cwynion Cod Ymddygiad yn bennaf yn ymwneud â hyrwyddo cydraddoldeb a pharch a datgelu a chofrestru diddordebau.
- Cwynion na gadarnhawyd a'r rhai ddaeth i ben.
- Roedd y cwynion Cod Ymddygiad gan y math o Awdurdod yn dangos rhwyg o 53/46% rhwng cynghorau tref/cymuned a cynghorau sir/ bwrdeistref sirol.
- Roedd ffeithiau Sir y Fflint yn dangos fod llai na 4% o gwynion Cod Ymddygiad wedi eu gwneud yn Sir y Fflint. Nodwyd mai dim ond Pwyllgor Safonau'r awdurdod allai benderfynu a yw'r Cod Ymddygiad wedi ei dorri gan yr awdurdod hwnnw neu Banel Dyfarnu Cymru.
- Roedd profi lles y cyhoedd yn ymwneud â chyfres o ffactorau i benderfynu a ddylid ymchwilio i'r gwyn neu'r achos o dorri'r Cod. Cymrwyd ymagwedd gymesur i ganolbwyntio ar beth oedd bwysicaf i bobl, gyda phob achos yn cael ei ystyried yn ôl ei rinweddau ei hun.
- Cwynion na chawsant eu cadarnhau – dim ond un o'r 22 o gwynion na chawsant eu cadarnhau a gafodd ei gyfeirio i'r Panel Dyfarnu y llynedd.
- Cwynion trallodus.
- Y dyfodol
- Mesur newydd Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru – pedwar maes lle gobeithia Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru dderbyn pwerau ychwanegol.
- Casgliad

Roedd Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn awyddus i weld cwynion lefel isel rhwng cynghorwyr yn cael eu trin drwy Broses Ddatrys Leol er mwyn galluogi ei dîm i ganolbwyntio ar gwynion mwy difrifol a'r rhai a gyflwynwyd gan aelodau o'r cyhoedd. Tra roedd proses o'r fath mewn grym ar lefel sirol, roedd hyn yn rhywbeth dewisol i Gynghorau Tref a Chymuned oedd yn cael eu hannog i ystyried mabwysiadu'r Protocol Datrysiad Lleol a gynhyrchwyd gan Un Llais Cymru. Yn ystod trafodaeth, dim ond pedwar cynrychiolydd a ddangosodd fod Gweithdrefn Ddatrys Leol wedi ei mabwysiadu gan eu Cyngor Tref/Cymuned. Pwysleisiodd y Swyddog Monitro bwysigrwydd mabwysiadu gweithdrefn o'r fath cyn unrhyw gwynion byw.

Yn dilyn y cyflwyniad, ymatebodd Mr. Bennett a Mrs. Ginwalla i nifer o gwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor a chynrychiolwyr y Cynghorau Tref a Chymuned:

***Ymddygiad tra-arglwyddiaethol parhaus lefel isel gan gynghorwyr a'r effaith ar y cynghorau hynny –*** Roedd yna ddisgwyliad i ddilyn peth ffurf o'r Broses Ddatrys Leol. Os methai hyn, byddai Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ymchwilio drwy ystyried yn gyntaf

unrhyw dystiolaeth ddogfennol o batrymau ymddygiad ac yna gweithredu egwyddorion prawf lles y cyhoedd.

***Ystyried prun ai i barhau gydag ymchwiliad (Cod Ymddygiad) a'r trothwy ar gyfer cwynion lefel isel -*** Rhoddwyd awdurdod dirprwyedig i'r tîm i ystyried cwynion a thystiolaeth o dorri'r Cod cyn gweithredu'r prawf lles y cyhoedd goddrychol a osodwyd gan Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Gellid gofyn am fwy o wybodaeth, os oedd angen, gan yr achwynydd. Os nad oedd egwyddorion y prawf yn cael eu cwrdd, byddai'r tîm yn gwrthod y gwyn ac yn darparu rhesymau ysgrifenedig. Roedd canllawiau ar gael ar wefan Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gynorthwyo cynghorau i barchu cwynion lefel isel a phenderfynu pryd y dylid atgyfeirio.

***Aelodau yr oedd cwyn wedi ei wneud yn eu herbyn –*** Byddai tîm Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn hysbysu'r Aelod cyhuddiedig, y Clerc a'r Swyddog Monitro ynglŷn â'r gwyn.

***Eglurhad ar gwynion swyddogion*** - mae'r Cod Ymddygiad yn cyfeirio at aelodau etholedig ac nid swyddogion (lle mae Cod ar wahân yn bodoli). Byddai swyddog fyddai'n methu cyflawni ei ddyletswyddau cyfreithiol yn gyfystyr â chamweinyddu. Gallai Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ystyried cwynion am 'gamgymeriadau trefniadol' fel y nodir yn y Ddeddf.

***Cwynion yn codi o gwyn flaenorol am Aelod etholedig*** - Rhaid dangos camgymeriad trefniadol yn hytrach na dim ond achwynydd yn anghytuno gyda'r canlyniad mewn cwynion o gamweinyddu. Rhaid i natur y gwyn fod yn ymwneud â'r gwasanaeth a dderbynnir, h.y. gan ddefnyddiwr y gwasanaeth, a rhaid i'r unigolyn hwnnw fod wedi dioddef anghyfiawnder. Yn gyffredinol, ni all Aelodau etholedig wneud cwyn am eu hawdurdod eu hunain. Pan mai'r Aelod etholedig yw defnyddiwr y gwasanaeth, yna gellid ceisio cyngor gan Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

***Opsiynau i Gynghorau Tref/Cymuned i ymdrin â materion parhaus yn codi o gwyn a wnaed i Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru*** – Byddai disgwyl i'r cyngor geisio datrys hyn drwy ddatrysiad lleol (os yn bosibl) i ddechrau cyn cynnwys Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Gallai'r Cynghorau Tref a Chymuned fabwysiadu protocol (tebyg i'r un fabwysiadwyd gan Gyngor Sir y Fflint) i ymdrin â chwynion trallodus sy'n bodoli ers amser ac yn effeithio ar amser ac adnoddau. Roedd hyn eto'n pwysleisio pwysigrwydd mabwysiadu gweithdrefn cyn unrhyw gwynion byw.

***Cynghorydd Tref/Cymuned yn gofyn am adolygiad o benderfyniad*** – Yn yr achos hwn, byddai Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn hysbysu'r Cyngor Tref neu Gymuned perthnasol ynglŷn â'r adolygiad. Yn gyffredinol dylid derbyn adolygiadau o fewn 20 diwrnod fel y nodir yn y canllaw.

***Pan fo cynghorydd â chysylltiad personol a sy'n rhagfarnu yn mynnu siarad ar yr eitem honno*** – Dylid ymdrin â hyn drwy'r Broses Ddatrys

Leol os yn bosibl ac (ar lefel sirol) dylid ei gyfeirio at y Swyddog Monitro. Dylai cwynion nad ydynt wedi eu datrys gael eu cyfeirio at Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

***Gweithdrefnau Datrys Lleol*** – Lluniwyd yr unig ddau y mae eu bodolaeth yn wybyddus yng Nghymru gan Un Llais Cymru (a gylchredwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor Safonau) ac un arall gan Gyngor Sir Ddinbych. Cytunodd y Prif Swyddog i gylchredeg yr olaf i Gynghorau Tref a Chymuned.

***Opsiynau datrys lleol ar gael –*** Tra'n cydnabod nad yw'r holl Gynghorau Tref/Cymuned yn aelodau o Un Llais Cymru, roedd yn bwysig serch hynny i sicrhau fod gweithdrefn mewn lle yn arbennig os oedd Cynghorau Tref/Cymuned i gael mwy o bwerau yn y dyfodol.

***Canllaw gan y Swyddog Monitro ar Weithdrefnau Datrys Lleol i Gynghorau Tref/Cymuned –*** Cytunodd y Swyddog Monitro i drefnu sesiwn hyfforddi i Glercod.

***Cyfrifoldeb ar awdurdodi gwariant ariannol*** – Dylai Aelodau fodloni eu hunain ar wariant cywir a dylai'r holl gyfrifon a gyflwynir fod o fewn y gyllideb a gytunwyd yn gynharach. Roedd canllawiau ar gael o Swyddfa Archwilio Cymru ar y lefel briodol o fanylion oedd eu hangen cyn awdurdodi.

***Hunanatgyfeiriad i Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru*** – Cadarnhawyd fod y cyfle hwn wedi bod ar gael ers peth amser. Cytunodd Mrs. Ginwalla i geisio canfod pam fod cyngor cyferbyniol wedi ei roi dros y ffôn i'r Cynghorydd Carver.

***Cyfrinachedd*** – Yn dilyn penderfyniad gan Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i beidio i ymchwilio i gwyn, nid yw cyfrinachedd yn angenrheidiol mwyach oni bai fod y gwyn yn cael ei chyfeirio at Bwyllgor Safonau neu Banel Dyfarnu. Gall penderfyniadau i beidio ymchwilio ymhellach cael eu cofnodi mewn cofnodion.

Ar ran y rhai oedd yn bresennol, diolchodd y Cadeirydd i Mr. Bennett a Mrs. Ginwalla am eu presenoldeb a'u cyflwyniad manwl.

## 28. DATGANIADAU O GYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o gysylltiad.

## 29. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 4 Medi 2017.

**PENDERFYNWYD:**

Fod y cofnodion yn cael eu llofnodi gan y Cadeirydd fel cofnod cywir.

**30. GODDEFEBAU**

Cafodd copïau o gais goddefeb a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Geoff Collet ar ôl cyhoeddi'r rhaglen eu dosbarthu gan y Dirprwy Swyddog Monitro. Roedd y Cynghorydd Collett yn dymuno siarad am bum munud fel Aelod lleol yn y Pwyllgor Cynllunio sydd i ddod ar gais cynllunio 056742. Roedd wedi datgan cysylltiad personol a sy’n rhagfarnu ar yr eitem gan fod ei gartref gyferbyn â'r datblygiad arfaethedig. Cadarnhawyd mai o dan baragraffau perthnasol (d) a (f) y ceisiwyd yr oddefeb.

Gan nad oedd y Cynghorydd Collett yn aelod o’r Pwyllgor Cynllunio, ni fyddai ganddo’r hawl i bleidleisio a gan ei fod wedi datgan cysylltiad personol ac sy’n rhagfarnu, dim ond am dri munud y byddai’n cael siarad. Pe byddai’n cael ei ganiatáu byddai'r oddefeb yn caniatáu dau funud ychwanegol iddo i siarad ar yr eitem a chynrychioli ei etholwyr yn llawn.

Yn dilyn trafodaeth teimlai'r Cynghorydd Arnold Wolley fod hyn yn gais rhesymol a chynigiodd fod yr oddefeb yn cael ei chaniatáu. Cefnogwyd hyn gan y Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD:**

Caniatáu goddefeb i’r Cynghorydd Geoff Collett o dan baragraffau (d) ac (f) o Reoliadau’r Pwyllgor Safonau (Caniatáu Goddefebau) (Cymru) 2001 i siarad am bum munud fel Aelod lleol yn y Pwyllgor Cynllunio ar gais cynllunio 056742, neu unrhyw gais sydd, ym marn y Swyddog Monitro, yn debyg. Mae’r Cynghorydd Collett i adael y cyfarfod ar ôl siarad, cyn trafodaeth a phleidlais ar y cais. Mae’r oddefeb i’w rhoi am 12 mis, gan ddod i ben ar 2 Hydref 2018.

**31. ADOLYGU GODDEFEBAU**

Cyflwynodd y Dirprwy Swyddog Monitro ddiweddariad ar yr adolygiad o oddefebau yn dilyn trafodaeth yn y cyfarfod blaenorol pan roedd y Pwyllgor yn penderfynu pa oddefebau ddylai barhau mewn grym a pha rai ddylid eu diddymu.

Yn y cyfarfod hwnnw, cytunodd y Pwyllgor i ymestyn sawl goddefeb hyd y cyfarfod hwn er mwyn galluogi’r Dirprwy Swyddog Monitro i ysgrifennu at yr Aelodau hynny i ofyn a oeddent yn dymuno ymestyniad pellach. O ganlyniad, roedd y Cynghorydd Veronica Gay wedi gofyn am ymestyn ei goddefeb mewn perthynas â Throsglwyddo Canolfan Gymunedol, Llyfrgell, a Chanolfan Ieuenctid yn Ased Cymunedol ar 1 Hydref 2018. Mewn perthynas ag aelodau o Gyngor Cymuned Argoed a gâi eu cynrychioli ar ‘MIFFY’, adroddwyd fod y Clerc wedi cadarnhau nad oedd angen y goddefebau hyn mwyach.

Eglurodd y Swyddog Monitro y gallai Aelodau oedd wedi derbyn goddefeb yn gynharach, ail ymgeisio ar delerau tebyg pe dymunent. Dywedodd y Cynghorydd Patrick Heesom y dylid egluro hyn yn glir wrth yr unigolion perthnasol.

**PENDERFYNWYD:**

Y dylai'r oddefeb a roddwyd i'r Cynghorydd Veronica Gay gan y Pwyllgor ar 4 Gorffennaf 2016, mewn perthynas â Throsglwyddo'r Ganolfan Cymunedol, Llyfrgell a Chanolfan Ieuenctid i fod yn Assed Cymunedol, barhau tan 1 Hydref 2018.

## 32. CYFARFOD FFORWM PWYLLGOR SAFONAU GOGLEDD CYMRU

Cadarnhawyd y byddai Rob Dewey yn mynychu'r Fforwm ar 24 Tachwedd 2017 ac nad oedd y Cadeirydd ar gael ar y dyddiad hwnnw. Mewn ymateb i ymholiad gan y Cynghorydd Patrick Heesom, eglurodd y Swyddog Monitro fod Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion y Pwyllgorau Safonau fel arfer yn mynychu cyfarfodydd y Fforwm, gan ddarparu cyfle i'r aelodau annibynnol hynny i rwydweithio. Cytunodd i gadarnhau a oedd Aelodau'r Cyngor yn gallu mynychu fel gwylwyr.

Atgoffwyd aelodau y gallant gysylltu â'r Swyddog Monitro i gyflwyno unrhyw eitemau ar gyfer y cyfarfod erbyn 13 Tachwedd 2017.

## 33. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Derbyniodd y Pwyllgor y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol gyfredol i'w hystyried. Nid oedd gan gyfarfod fis Tachwedd unrhyw eitemau busnes ar hyn o bryd a byddai'n cael ei ganslo oni bai fod ceisiadau am oddefebau yn cael eu derbyn.

Rhoddodd y Prif Swyddog ddiweddariad cryno ar benodiad yr aelod lleyg ar y Pwyllgor i gael ei hysbysebu ar y cyd gyda'r Awdurdod Tân. Fel yr awgrymwyd yn gynharach, byddai'r hysbyseb yn pwysleisio natur fanteisiol gwaith y Pwyllgor i apelio at amrediad ehangach o ymgeiswyr. Rhagwelwyd y byddai'r cyfweliadau'n cael eu cynnal yn niwedd Tachwedd 2017 i alluogi'r Pwyllgor i ystyried argymhellion y cyd banel cyfweld yn Rhagfyr cyn ystyriaeth gan y Cyngor llawn ar 12 Rhagfyr. Cytunodd y Swyddog Monitro i hysbysu'r Pwyllgor pan fyddai'r pecyn gwybodaeth recriwtio ar gael.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.

## 34. AELODAU O'R WASG A'R CYHOEDD YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd na'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 6pm a daeth i ben am 7.35pm)

…………………………
**Cadeirydd**